

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Parc Cenedlaethol Eryri

Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft: Ymateb i'r Ymgynghoriad

1. Rydym y cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei wireddu'n ymarferol gael eu gosod allan mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Rydym yn cytuno bod y cynllun wedi ei osod allan mewn ffordd glir ac o dan y prif benawdau y disgwylir sylw penodol arnynt.
3. Os bydd yr holl ymrwymadau yn y cynllun yn cael eu gwireddu heb eithriad bydd hyn yn sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn gallu cefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau fod y Gymraeg yn cael yr un statws a'r Saesneg wrth weithredu. Pryn bynnag, ar hyn o bryd mae'r cynllun yn llawn datganiadau fel *"cyhyd a bod hynny'n rhesymol ymarferol"*, *Byddwn yn ceisio...*, *"pan fyddant ar gael"* a.y.b. Dylai'r cynllun fod yn llawer mwy pendant yn yr iaith sydd yn cael ei ddefnyddio o ran cyflawni'r ymrwymadau ac amlinellir ynddo. Mae defnyddio datganiadau megis y rhai uwchlaw yn golygu caniateir peidio â gweithredu gofynion y cynllun ar bob achlysur. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol o ddifrif yn eu huchelgais i gael sefydliad gwirioneddol dwyieithog, bydd rhaid i'r Comisiwn y Cynulliad cynhyrchu cynllun llawer mwy tun yn ei ofynion na'r hyn a nodir yn bresennol. Mae yna angen i ailedrych ar geiriad y ddogfen yma i sicrhau nad yw'n galluogi staff y Comisiwn i ddefnyddio'r esgusodion parod yma ar pam na ellir gweithredu'r gofynion.

Bethan Wyn Hughes
Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

23 Medi 2011